

Ymweliad â fferm laeth: cysylltiadau i'r Fframwaith Sgiliau yng Nghymru ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r adnodd hwn yn awgrymu gweithgareddau a thrafodaethau y gellid eu gwneud cyn, yn ystod ac ar ôl ymweld â fferm laeth gan ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2-4. Bwriedir i hwn ddarparu awgrymiadau y gellir eu haddasu ar gyfer pob oed drwy amrywio'r lefel o fanylion. Er enghraifft, gall disgyblion CA2 ddysgu am ddedol yn nhermau ffermwr yn dewis y buchod godro gorau ar gyfer bridio, tra y bydd disgyblion hŷn yn defnyddio terminoleg fel 'dedol artiffisial' a 'genynnau'. Gellir dod o hyd i fwy o syniadau drwy ymgynghori â'r gwefannau yn y rhestr Adnoddau.

Canlyniadau dysgu

Bydd disgyblion yn:-

- Deall sut mae fferm laeth yn gweithio a'r prosesau sydd ynghlwm
- deall pwysigrwydd ffermio i economi Cymru/DU
- archwilio materion lles anifeiliaid sy'n gysylltiedig â ffermio
- archwilio materion datblygu cynaliadwy ehangach sy'n gysylltiedig â ffermio a phryniant gan ddefnyddwyr.

Adnoddau:-

Ymweliadau fferm, hylendid, iechyd a diogelwch	www.face-cymru.org.uk/category/teachers * www.face-online.org.uk/codeofpractice	Labelu bwyd	www.farmbehindthefood.org.uk
Ffermio llaeth	www.thisisdairyfarming.com * www.foodafactoflife.org.uk *	Diogelwch a chynaliadwyedd bwyd	www.foodsecurity.ac.uk/resources/schools.html
Ffermio yng Nghymru	www.countryside.wales.gov.uk *	Ôl troed carbon, ecoleg a dŵr	www.zerocarbonbritain.org www.myfootprint.org www.waterfootprint.org
Lles anifeiliaid	www.rspca-education.org.uk *	Dinasyddiaeth fyd-eang	www.oxfam.org.uk/education/school-projects/food-for-thought

* Adnoddau dwyieithog ar gael

Cysylltiadau i'r Fframwaith Sgiliau		Themâu ADCDF	
Adran 1	<i>Datblygu meddwl</i>	Gofyn cwestiynau Ysgogi cwestiynau Ysgogi sgiliau, gwybodaeth, a dealltwriaeth flaenorol Casglu gwybodaeth Penderfynu ar y broses/dull a strategaeth	Meddwl yn rhesymegol a datblygu patrymau Ystyried tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau Ffurio barn a gwneud penderfyniadau Gwerthuso'u dysgu a'u meddwl eu hunain Cysylltu a meddwl yn ochrol
Adran 2	<i>Datblygu cyfathrebu</i>	Datblygu gwybodaeth a syniadau	
Adran 4	<i>Datblygu rhifau</i>	Mesur Casglu gwybodaeth Defnyddio amrywiaeth o ddulliau Cofnodi a dehongli data a dangos y canfyddiadau	
		a. Hunaniaeth a diwylliant b. Cyfoeth a thlodi c. Defnyddio a gwastraff ch. Dewisiadau a phenderfyniadau d. Newid yn yr hinsawdd dd. Iechyd a lles e. Yr amgylchedd naturiol	

Pwnc	Neges Allweddol	Enghraifft	Pwyntiau trafod	Cysylltiadau ADCDF	Cysylltiadau â'r Cwricwlwm
Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Mae iechyd a diogelwch yn bwysig iawn ar y fferm Ceir germau a all gael eu lledaenu a all fod yn niweidiol i anifeiliaid a phobl 	<ul style="list-style-type: none"> Dangos i ddisgyblion sut mae golchi eu dwylo'n gywir. Tynnu sylw at beryglon ar y fferm e.e. traffig fferm, anifeiliaid, peiriannau Trafod BSE, y diciâu, E. coli, clwy'r traed a'r genau 	<ul style="list-style-type: none"> Pam mae hi'n bwysig i olchi dwylo'n gywir? Beth yw canlyniadau posibl peidio â gwneud hyn – i unigolion, i ffermydd, yr economi? 	<p>Iechyd a Lles Y berthynas rhwng iechyd anifeiliaid a phobl</p>	Gwyddoniaeth
Pwy sy'n byw ar y fferm	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyniad - y ffermwr a'i deulu/theulu 	<ul style="list-style-type: none"> Pwy sy'n rhedeg y fferm? Beth yw'r prif swyddi ar y fferm? Beth yw hanes y fferm? Pa anifeiliaid sydd ar y fferm? 	<ul style="list-style-type: none"> Pam mae pobl yn dewis bod yn ffermwyr? Sut mae'r fferm hon wedi newid yn ystod ei hanes, a pham? Sut fath o beth yw gweithio ar fferm? 	<p>Hunaniaeth a diwylliant Pobl, lleoedd a swyddi; dwysáu ffermio mewn ymateb i ffactorau economaidd a chymdeithasol</p>	Hanes – defnydd tir Daearyddiaeth – ffermio/defnydd tir
Buchod godro	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid i fuwch gael llo er mwyn rhoi llaeth Ceir gwahanol fridiau o fuchod godro. Mae buchod godro sy'n rhoi llaeth yn fenywaidd 	<ul style="list-style-type: none"> Y gwahanol fridiau o fuchod e.e. llaeth, eidion, deuddiben Pa mor aml mae'r fuwch yn disgwyl llo er mwyn cynhyrchu llaeth? Beth mae buwch angen er mwyn cynhyrchu llaeth o ansawdd da? 	<ul style="list-style-type: none"> Pam fod gennym wahanol fridiau o fuchod? Ar gyfer beth y byddech yn bridio? Beth sy'n digwydd i loi llaeth gwryw? 	<p>Iechyd a Lles Lles anifeiliaid, ein hawliau a'n cyfrifoldebau, defnyddio adnoddau</p>	Gwyddoniaeth - cenhedlu Dethol
Y beudy	<ul style="list-style-type: none"> Mae buchod yn cysgu mewn stalau glân, helaeth Mae'r ysgubor wedi'i awyru'n dda ac yn lân er mwyn cadw'r buchod yn gyfforddus Mae'r stalau gyda digon o wellt dan draed er mwyn darparu lleoedd cyfforddus i'r buchod orwedd 	<ul style="list-style-type: none"> Edrych ar sut y mae'r ffermwr yn darparu gofal drwy ddarparu'r diet cywir, siediau cyfforddus ac archwiliadau rheolaidd Beth yw anghenion sylfaenol buwch? Beth yw nodweddion arbennig sied sy'n galluogi buchod i gael gwell safon byw? 	<ul style="list-style-type: none"> Pam mae lles anifeiliaid yn bwysig? Cymharu lles anifeiliaid mewn ffermio dwys a ffermio nad yw'n ddwys. Pam mae hyn yn bwysig i'r anifeiliaid? Pam mae hyn yn bwysig i'r ffermwr? 	<p>Iechyd a Lles Lles anifeiliaid, ein hawliau a'n cyfrifoldebau, defnyddio adnoddau</p>	Daearyddiaeth Gwyddoniaeth
Y storfa fwyd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r buchod yn bwydo ar ddiet cytbwys (porfa, silwair a dwysfwydydd) a chyflenwad cyson o ddŵr glân ffres Gall buwch fwyta hyd at 40 kg o fwyd y dydd a llond twb o ddŵr Mae bwydydd anifeiliaid yn cael eu cymysgu gyda'i gilydd i ddarparu'r faetheg gywir 	<ul style="list-style-type: none"> Dangos nifer o samplau o wahanol fwydydd: silwair, dwysfwydydd Gofyn i ddisgyblion gyffwrdd ac aroglu gwahanol fwydydd Dangos faint fyddai pob buwch yn bwyta bob dydd Dangos faint o ddŵr mae buwch yn yfed bob dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Disgyblion i gyfrifo faint o fwyd sydd ei angen bob dydd y fuwch/y fuches. Disgyblion i gyfrifo faint o ddŵr sydd ei angen y fuwch/y fuches. O ble mae cynhwysion bwydydd yn dod? Pam nad ydyn nhw'n bwyta glaswellt yn unig? Edrych ar ôl troed carbon a dŵr llaeth 	<p>Defnydd a gwastraff Cyfoeth a thlodi Y fasnach bwydydd byd-eang; ôl troed ecolegol cynhyrchu cig a llaeth; diogelwch bwyd; bregusrwydd i newid yn yr hinsawdd ac ansefydlogrwydd gwleidyddol</p>	Daearyddiaeth – ffermio Gwyddoniaeth
Ymweld â siediau'r lloi	<ul style="list-style-type: none"> Mae lloi yn cael eu bridio ar y fferm Mae lloi yn cael eu cadw mewn siediau gwahanol ar oedrannau gwahanol Mae gan loi anghenion gwahanol i fuchod llawn maint 	<ul style="list-style-type: none"> Beth sy'n digwydd i fuchod sy'n cael eu geni ar y fferm? Edrych ar y siediau gwahanol maen nhw'n byw ynddyn nhw ac eglurwch pam mae hyn Beth yw anghenion llo a sut mae cwrdd â nhw? 	<ul style="list-style-type: none"> Faint o loi sy'n cael eu geni ar y fferm bob blwyddyn? Beth sy'n digwydd i rai o'r lloi na ellir eu magu ar gyfer cynhyrchu llaeth? 	<p>Iechyd a Lles Lles anifeiliaid, cynhyrchu bwyd</p>	Gwyddoniaeth – cenhedlu

Manylion	Neges Allweddol	Enghraifft	Pwyntiau trafod	Cysylltiadau ADCDF	Cysylltiadau â'r Cwricwlwm
Potelu a phasteureiddio	<ul style="list-style-type: none"> • Mathau gwahanol o gynhyrchion llaeth • Y broses o botelu llaeth • Iechyd a diogelwch yn y broses o botelu • Ychwanegu gwerth at laeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Sut mae llaeth yn cael; ei gadw'n ffres? • Lle mae'n cael ei storio? • Sut mae llaeth yn cael ei brofi? • Pa gynhyrchion eraill sy'n cael eu gwneud o laeth? • Beth yw cwotâu llaeth? 	<ul style="list-style-type: none"> • A fedr y disgyblion enwi cynhyrchion eraill a ellir eu cynhyrchu o laeth? • Egluro sut yr oedd llaeth yn cael ei botelu mewn gwydr. A yw pecynnu plastig yn gynaliadwy? • Pa un ydych chi'n meddwl sy'n defnyddio mwy o ynni i'w wneud a'i storio: llaeth ffres, menyn, iogwrt neu gaws? • Pam fyddai'n well gan ffermwr werthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid yn lle i archfarchnad? 	<p>Cyfoeth a thlodi Defnydd a gwastraff Y gadwyn fwyd – economeg, lleihau gwastraff, defnydd ynni, perthnasau pŵer</p>	Gwyddoniaeth Dylunio a Technoleg
Parlwr godro	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i fuchod gael eu godro 2 neu 3 gwaith y dydd • Ar gyfartaledd, mae buwch yn gallu rhoi 60 litr o laeth y dydd • Mae porsiau'r buchod yn cael eu glanhau a'u diheintio cyn ac ar ôl godro er mwyn cadw'r llaeth yn lân a ffres 	<ul style="list-style-type: none"> • Edrych ar ddyluniad y parlwr godro a'i gysylltu â lles anifeiliaid • Edrych ar y cwpanau godro: sut maen nhw'n cael eu gosod ar y buchod? • Edrych ar y raddfa fesur ar y tanciau 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifo faint o fuchod a all gael eu godro ar yr un pryd. • Sut mae'r buchod yn cael eu cadw yn eu staliau ar gyfer godro? • Faint o laeth a ellir ei gasglu mewn un cyfnod godro? 	<p>Iechyd a lles Lles anifeiliaid, defnydd ynni</p>	Daearyddiaeth Mathemateg
Arallgyfeirio ar y fferm	<ul style="list-style-type: none"> • Mae llawer o ffermydd wedi gorfod arallgyfeirio i feysydd eraill er mwyn goroesi'n ariannol • Mae rhai ffermydd yn cefnogi meysydd eraill fel cadwraeth/addysg/cnydau newydd/gweithgareddau hamdden 	<ul style="list-style-type: none"> • Edrych ar sut mae'r fferm wedi arallgyfeirio i feysydd gwahanol, e.e. prosesu bwyd, addysg, cadwraeth coetiroedd, llety gwyliau, pysgota. • Edrych ar sut mae ffermydd yn hyrwyddo cadwraeth a chynaliadwyedd natur yn gyfnewid am daliadau gan y llywodraeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Pam mae rhai ffermydd wedi gorfod gwneud hyn yn ogystal â'u prif waith? • Sut mae ffermwyr yn ymgorffori hyn i'w bywydau gweithio? • Pa weithgareddau eraill allai ffermydd gefnogi? 	<p>Hunaniaeth a diwylliant Dewisiadau a phenderfyniadau Y cydbwysedd rhwng cynhyrchu bwyd a chadwraeth natur; canlyniadau bwyd rhad a globaleiddio</p>	Daearyddiaeth
Ymarferion amgylcheddol ar y fferm	<p>Mae ffermwyr yn ofalus sut y maen nhw'n defnyddio adnoddau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pa brosesau o gwmpas y fferm sy'n defnyddio ynni/adnoddau? • Sut y mae'r fferm yn dangos defnydd da o adnoddau? Edrych am gasgenni dŵr, paneli solar, tyrbinau gwynt, gwneud compost ayyb. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sut allai ymarferion ffermio fod yn fwy cynaliadwy? 	<p>Defnydd a gwastraff Newid yn yr hinsawdd Ôl traed ecolegol, cadwraeth ynni, ailgylchu</p>	Daearyddiaeth
	<p>Mae ffermwyr yn gofalu am fywyd gwyllt</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Edrych ar berth/coetir/tir pori parhaol/pwll/gweirglodd • Pa fywyd gwyllt mae'n ei gefnogi? • Enwi rhai cadwyni bwyd 	<ul style="list-style-type: none"> • Sut ydych chi'n cydbwysu cadwraeth natur gyda chynhyrchu bwyd? • Pwy sy'n talu am gadwraeth natur? 	<p>Yr amgylchedd naturiol Newid yn yr hinsawdd Bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau</p>	Daearyddiaeth
Mathau gwahanol o ffermio	<p>Gall fwyd gael ei labelu fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Maes • Gwarant Fferm • Bwyd Rhyddid • LEAF • Organig 	<ul style="list-style-type: none"> • Dod o hyd i logos ar becynnau bwyd a chymharu gofynion pob cynllun • Lle cafodd y bwyd ei gynhyrchu? Pa mor bwysig yw hi i brynu bwyd lleol yn hytrach na'i fewnforio? • Pa mor iach ydych chi'n meddwl yw'r bwyd? • Faint o ynni a ddefnyddiwyd i'w wneud a'i gludo? 	<ul style="list-style-type: none"> • Pa fath o fferm ydych chi'n ymweld â hi heddiw? • Sut ydych chi'n gwneud eich dewisiadau bwyd? • A fydddech chi'n talu'n ychwanegol am y logos hyn? 	<p>Dewisiadau a phenderfyniadau Cydbwysu cynhyrchu bwyd gyda lles anifeiliaid a'r amgylchedd; diogelwch bwyd</p>	Daearyddiaeth Gwyddoniaeth